

CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

SGRIPT

cylchgrawn

2021



YN Y RHIFYN HWN:

Dathlu Canmlwyddiant
yr Ysgol Fferylliaeth a
Gwyddorau Fferyllol



Cynnwys

Gair o groeso gan yr Athro Mark Gumbleton, Pennaeth yr Ysgol **3**

Dathlu **100 mlynedd** gyntaf yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol **4**

Ailddefnyddio masgiau wyneb: Ai microdonnau yw'r ateb? **10**

Cefnogi gofal cleifion ar y rheng flaen yn ystod y pandemig – myfyrdodau gan ein myfyrwyr Fferylliaeth **12**

Caerdydd yn arloesi wrth gyflwyno'r unig wasanaeth sgrinio COVID-19 mewnol mewn prifysgol yng Nghymru **14**

Ymchwilwyr Caerdydd yn cefnogi cleifion ac yn gwella gallu'r GIG yn ystod COVID-19 **15**

Staff Dan y Chwyddwydr: Simon Taylor MRPharmS **16**

Dathlu'r arloeswyr a'r unigolion newydd sy'n chwarae rhan amlwg wrth ddarganfod cyffuriau **17**

Rhoi gwaith ymchwil yr Ysgol dan y chwyddwydr **18**

Myfyrwyr Fferylliaeth Caerdydd yn helpu i achub bywydau yn Affrica **20**

Gair gan WPSA **21**

Ffarwelio â Terry Turner OBE **22**

Llwyddiant myfyrwyr yng Nghynhadledd Cymdeithas Myfyrwyr Fferyllol Prydain **23**

Gwobrau a Chyflawniadau **24-25**

Gair o groeso

gan yr Athro Mark Gumbleton, Pennaeth yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol

Yn gyntaf oll, a gaf i fynegi diolch ac edmydd enfawr i gydweithwyr, myfyrwyr, cyn-fyfyrwyr a ffrindiau'r Ysgol sy'n gweithio'n galed iawn o dan amodau mor anodd yn y rheng flaen glinigol neu mewn rôl gefnogol agos i helpu yn yr ymdrech yn erbyn COVID-19. Mae fferyllwyr a'r tim Fferylliaeth ehangach wedi bod yn allweddol wrth gefnogi parhad gofal i gleifion yn ystod y pandemig ac ni fu cefnogaeth y cyhoedd i'r proffesiwn erioed yn uwch.


Mae clinigwyr, staff academiaidd, staff ymchwil a staff y gwasanaethau proffesiynol, myfyrwyr proffesiynau iechyd a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ledled y Coleg Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd hefyd wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd yn wirfoddol i'r GIG. Bu'r ymateb yn gwbl arwrol ac rwy'n falch fy mod yn rhan o gymuned wyddonol sydd wedi ymateb mewn ffordd mor greadigol a hyblyg i'r pandemig.

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith aruthrol arnom ni i gyd. Fel Prifysgol, aeth amrywiaeth o gydweithwyr ati i symud i ffurfiau ar addysgu, asesu a goruchwyllo myfyrwyr o bell a hynny gan ddangos ymdrech a chyflymder anhygoel – gan sicrhau ein bod yn cynnal safonau proffesiynol ar yr un pryd a bod y systemau cymorth ar waith i'n myfyrwyr a'n staff. Mae gennyf barch mawr at gydweithwyr sydd wedi dangos dyfeisgarwch ac ymrwymiad wrth ymateb i heriau lluosog dros y 15 mis diwethaf a phroffesiynoldeb ac ymgysylltiad cadarnhaol ein myfyrwyr â mathau cwbl newydd o ddysgu.

Wrth i'r Brifysgol fwrw ati i ddarparu a chynllunio trefniadau recriwtio myfyrwyr, gweithgareddau addysgu ac ymchwil yn y flwyddyn academiaidd gyfredol ac yn y dyfodol, mae'n rhaid i ni ystyried ystod eang o bosibiliadau a bod yn barod i fod yn hyblyg ac ystyth er mwyn delio â heriau na allwn eu rhagweld ag unrhyw sicrwydd.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae cyhoeddi safonau newydd y Cyngor Fferyllol Cyffredinol yn ddiweddar ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol Fferyllwyr, sydd i'w gweithredu'n raddol o 2021 ymlaen, wedi rhoi ffocws ar anghenion datblygu proffesiynol ein myfyrwyr a'r staff sy'n eu cefnogi. Rydym nawr yn cychwyn ar adolygiad sylweddol o'n rhaglenni Fferylliaeth proffesiynol. Mae angen i ni sicrhau bod ein myfyrwyr yn gallu chwarae rôl estynedig wrth ddarparu gofal clinigol i gleifion a'r cyhoedd o'u diwrnod cyntaf ar y gofrestr, gan gynnwys drwy ragnodi meddyginiaethau.

Gan weithio gyda rhanddeiliaid ym mhob sector, byddwn yn cryfhau datblygiad sgiliau clinigol ac yn ymgorffori'r paratoad sylfaenol ar gyfer statws Rhagnodydd Annibynnol yn ein rhaglen MPharm. Rydym yn gweithio'n agos gydag



Addysg a Gwella Iechyd Cymru (HEIW), ein corff addysg statudol, ar ddiwygiadau sylweddol i'r flwyddyn cyn-gofrestru, gan gynnwys datblygu rhaglen hyfforddiant sylfaen â sicrwydd ansawdd.

Rydym hefyd yn adolygu ein darpariaeth ôl-raddedig wedi'i thargedu at ddatblygiad proffesiynol y gweithlu fferyllwyr presennol. Un model yr ydym yn ei ystyried yw rhaglen hyblyg a fydd yn caniatáu i fferyllwyr cymwys gronni credydau tuag at gymhwyster ôl-raddedig o bynciau o ddiddordeb proffesiynol a astudiwyd ar gyflymder i ddiwallu anghenion unigol.


Er bod y ddau llyn yn cynrychioli rhaglen waith sylweddol i'r Ysgol, mae'r safonau newydd yn agor cyfleoedd cyffrous i ddatblygu'r proffesiwn a chydabod arbenigedd a chyfraniad unigryw fferyllwyr yn y gymuned gweithwyr iechyd proffesiynol ehangach. Edrychaf ymlaen at weithio gyda llawer ohonoch ar y datblygiadau pwysig hyn. Mae eich mewnwediadau a'ch mewnbwn yn amhrisiadwy wrth ddod â'n rhaglenni'n fyw a chyfoethogi profiadau dysgu ein myfyrwyr.

Gobeithiwn yn fawr eich bod yn mwynhau darllen y rhifyn hwn o Sgript sy'n rhoi cyfle inni grynhoi diwedd ein canmlwyddiant a rhannu gyda chi newyddion am sut mae'r proffesiwn, ein myfyrwyr a'r Ysgol wedi ymateb i'r argyfwng. Yn wir, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed a rhannu eich newyddion a'ch safbwyntiau proffesiynol chi hefyd mewn rhifynnau yn y dyfodol.

Dymuniadau gorau

Yr Athro Mark Gumbleton

Pennaeth yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol



100 MLYNEDD YEARS ¹⁹¹⁹₂₀₁₉

o addysgu ac ymchwil
of teaching and research

Dathlu Canmlwyddiant yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol

Roedd blwyddyn academiaidd 2019-20 yn nodi canmlwyddiant yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol. Roedd yn flwyddyn i ddathlu ac edrych yn ôl ar 100 mlynedd o addysg ac ysgolheictod mewn fferylliaeth a ddechreuodd gyda'r garfan gyntaf o fyfyrwyr ym mis Hydref 1919 yng Ngholeg Fferylliaeth Cymru oedd newydd ei sefydlu.

Cynhadledd y Canmlwyddiant

Lansiwyd dathliadau'r canmlwyddiant drwy gynnal Cynhadledd Canmlwyddiant arbennig yn adeilad Haydn Ellis ar 19 Medi 2019. Diben yr achlysur oedd nodi canrif o ragoriaeth ysgolheigaidd ac ystyried heriau a chyfleoedd y dyfodol ym maes fferylliaeth.


Gwahoddwyd sawl gwestai proffil uchel i siarad yn y digwyddiad gan gynnwys y cyn Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Vaughan Gething AC. Siaradodd y Gweinidog am ddyfodol fferylliaeth yng Nghymru a'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud gan Brifysgol Caerdydd wrth hyfforddi fferyllwyr y dyfodol.

"Mae cydnabyddiaeth bod yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol yn un o brif ysgolion y Deyrnas Unedig yn y maes hwn," meddai, gan ychwanegu, "Ymhlith y gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein cymunedau, mae fferyllwyr yn rhoi gwasanaeth gwerthfawr iawn trwy helpu i reoli clefydau parhaus, rhoi cyngor a phresgripsiynau a chynnig y Gwasanaeth Afiechydon Cyffredin."

Yn dilyn araith y Gweinidog, ymhelaethodd Prif Swyddog Fferyllol Cymru, Andrew Evans, ar y syniadau hyn gan ddisgrifio trywydd fferylliaeth tuag at 2030 pan fydd fferyllwyr yn gwella gwybodaeth cleifion am eu cyflyrau a'u meddyginiaethau, yn canolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau therapiwtig gorau gan ddefnyddio adnoddau sy'n cynnwys rhagnodi, ac yn llywio arloesedd a mynediad cyfwerth i bawb i feddyginiaethau, gan ddarparu gofal di-dor.

Siaradwr gwadd olaf y dydd oedd Prif Wyddonydd y Gymdeithas Fferylliaeth Frenhinol, Gino Martini, a ddisgrifiodd sut y bydd triniaethau'n newid yn y degawdau sydd i ddod ac effaith hynny ar rôl y fferylllydd. Rhoddodd gerdyn pen-blwydd i'r Ysgol yn 100 oed i'r Athro Gumbleton hefyd.

Meddai'r Athro Gumbleton, "Heddiw, edrychwn ni at y dyfodol a sut y gallwn fel Ysgol Fferylliaeth flaenllaw barhau i fireinio'r addysg a'r hyfforddiant y bydd eu hangen i gefnogi dyheadau unigolion, y proffesiwn fferyllol a gofal i gleifion a'u haddasu. Fel Ysgol, rydyn ni'n cydnabod y cyfrifoldeb enfawr hwn sydd arnom ac a rennir yn briodol iawn mewn partneriaeth â llawer o bobl eraill. Rwy'n parhau i gael fy ysbyrdoli gan fferylliaeth fodern a'r modd y gall ddatblygu."



Hanes Addysgu Fferylliaeth - Camu'n Ôl mewn Amser

Roedd yr Ysgol yn awyddus i wneud rhywbeth arbennig iawn i'r garfan newydd o fyfyrwyr MPharm er mwyn nodi 100 mlynedd ers i Goleg Fferylliaeth Cymru ar y pryd agor ei ddrysau am y tro cyntaf ar 8 Hydref 1919.

Ac felly, gan mlynedd yn ddiweddarach, gwisgodd myfyrwyr fferylliaeth wisgoedd Edwardaidd, a gwnaethant ddod o hyd i lyfrau nodiadau a phensiliau i fwynhau diwrnod o ddarlithoedd a gweithdai fel y byddent wedi bod ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.

Gwisgodd y staff yn ôl ffasiwn Prydain yn yr oes Edwardaidd gan gyflwyno gwersi mewn pynciau y byddai myfyrwyr fferylliaeth wedi'u cael yn 1919. Roedd arlunio dail, dehongli Lladin, materia medica, plygu powdr a rholio pils yn weithgareddau beunyddiol, ynghyd â darlithoedd ar wenwynau a sesiwn cemeg ymarferol gydag aspirin.

Er mwyn sicrhau cywirdeb hanesyddol, cyflogodd yr Ysgol ddoniau'r hanesydd fferyllol, Briony Hudson, a Heather Pardoe, Prif Guradur Botaneg Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Gan gynghori'r staff academiaidd, pwysleisio nhw bwysigrwyd y cyddestun cyfoes wrth gynhyrchu cynnwys, gan roi golwg clir ar sut roedd pethau'n cael eu gwneud yn y gorffennol a sut arweiniodd nhw at dechnegau cyfoes.

"Mae cynifer o bethau yr un fath ag sydd wedi newid", dywedodd Briony. "Nid yw'r sgiliau ymarferol, y proffesiynoldeb, y manylder... na'r wyddoniaeth y tu ôl i'r meddyginaethau – nid yw'r gwerthoedd craidd sy'n gysylltiedig â'r elfennau hynny wedi newid."

Wrth sôn am y diwrnod, ychwanegodd

yr Athro James Birchall, Dirprwy Bennaeth yr Ysgol, *"roedd ein Diwrnod Camu'n Ôl mewn Amser yn gyfle bendedig i'n staff a'n myfyrwyr ddod at ei gilydd i ddathlu ein hanes a'n cyflawniadau, ac edrych ymlaen at y ganrif nesaf o ragoriaeth ym maes addysg fferyllol yng Nghaerdydd."*

Erthygl fanylach ar hanes addysgu fferylliaeth: Gellir gweld erthygl ar ddiwrnod 'Camu'n Ôl mewn Amser' yn Ysgol Fferylliaeth Prifysgol Caerdydd, wedi'i hysgrifennu gan Briony Hudson yn y cyfnodolyn, Pharmaceutical Historian, Cyfrol 50, Rhif 4, Rhagfyr 2020, tt. 109-114(6).





100 YEARS 1919-2019 MLYNEDD of teaching and research o addysgu ac ymchwil

Lansio 100 Mlynedd (1919-2019): Ysgol Fferylliaeth Prifysgol a Gwyddorau Fferyllol Prifysgol Caerdydd

I gofio a dogfennu llwyddiannau niferus ein canmlwyddiant, mae'r hanesydd fferyllol Briony Hudson, wedi ysgrifennu cyhoeddiad arbennig 160 tudalen i dynnu sylw at etifeddiaeth gyfoethog yr Ysgol o ddatblygiadau addysgol, ysgolheictod ac ymchwil, y mae ein henw da o safon fyd-eang wedi'i adeiladu arni.

100 mlynedd (1919-2019): Mae Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol Prifysgol Caerdydd hefyd ar gael i'w gweld ar-lein trwy ystorfa Casgliadau Arbennig ar yr Archif Rhyngryd. Mae hyn yn caniatáu ichi ddod o hyd i ddeunydd drwy Google, ei ddarllen ar-lein, chwilio o fewn y testun, a'i lawrlwytho'n hwylus mewn amrywiaeth o fformatau. Gallwch ei weld yma: <https://archive.org/details/cu-pharmacy-centenary>

Dywedodd yr Athro Mark Gumbleton, Pennaeth yr ysgol: "Hoffwn fanteisio ar y cyfle i gydnabod y miloedd lawer o fyfyrwyr, staff a phartneriaid allanol sydd wedi cyfrannu at ehangder cyflawniadau'r Ysgol dros genedlaethau lawer, ac at gynnal cymeriad croesawgar a bywiog yr Ysgol". Ychwanegodd yr Athro Gumbleton, "Hoffwn hefyd fynegi fy nioch i'r rhai sydd wedi rhannu eu hanes wrth ddatblygu'r cyhoeddiad hwn, a diolch yn arbennig i Briony Hudson am ymchwilio ac ysgrifennu'r llyfr hwn".



Amser cystadleuaeth!

Mae gennym nifer cyfyngedig o gopïau ansawdd uchel o 100 Mlynedd (1919-2019): Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol Prifysgol Caerdydd ar gael i'w hennill mewn cystadleuaeth.

Er mwyn cael cyfle i ennill eich copi eich hun i'w gadw, e-bostiwch ddatganiadau o ddiddordeb ynghyd â'ch enw a'ch cyfeiriad post llawn i phrmy-hos-pa@caerdydd.ac.uk. Tynnir enwau ar hap a hysbysir yr enillwyr drwy e-bost.



Diolch am fod yn rhan o'n 100 mlynedd gyntaf, gan bawb yn yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol

Mae llawer wedi newid ym mhroffesiwn Fferylliaeth ers i ni ddechrau addysgu ym mis Hydref 1919. Ond yr hyn sydd heb newid yw ein penderfyniad a'n hymrwymiad i wella'r proffesiwn, i ymateb i anghenion gofal iechyd newidiol y boblogaeth, ac i wella bywydau cleifion.

Ers dros gant o flynyddoedd, rydym wedi bod yn cynhyrchu graddedigion rhagorol, sy'n barod i ddechrau ar yrfaedd, ac yn arloesi er budd y proffesiwn. Heddiw, rydym mor ymroddedig ag erioed i'r amcanion hynny.

Felly, ochr yn ochr ag ymfalchïo wrth ddatlu ein cyflawniadau yn ystod y ganrif ddiwethaf, ein nod yw defnyddio'n treftadaeth i helpu i ddylanwadu ar ddyfodol fferylliaeth yn y Deyrnas Unedig ac ar draws y byd.

Daeth Adeilad Redwood yn gartref i'r Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol ar 2 Mehefin 1961. Credyd: Archifau Morgannwg

Ein hanes yn gryno gan Briony Hudson, Hanesydd a Darlithydd Fferylliaeth

Ym mis Hydref 1919, agorodd Coleg Fferylliaeth Cymru fel adran yng Ngholeg Technegol newydd Caerdydd. Yn y flwyddyn gyntaf honno, cafodd 88 o fyfyrwyr eu haddysgu gan ddau aelod o staff mewn dwy ddarlithfa a dau labordy yn y man sydd bellach yn Adeilad Bute. Gallent astudio'n llawn amser neu'n rhan amser ar gyfer diplomâu a thystysgrifau a osodwyd gan y Gymdeithas Fferyllol a Chymdeithas yr Apothecariaid. Aeth yr Ysgol ymlaen yn fuan i gynnig gradd BPharm Prifysgol Llundain yn allanol o 1927, a sefydlwyd gradd Prifysgol Cymru o 1936.

Llun o'n carfan gyntaf o fyfyrwyr a staff y tu allan i'r Coleg Technegol (Adeilad Bute bellach) ym mis Awst 1920.

Erbyn diwedd y 1950au, roedd yr Ysgol yn tyfu'n rhy fawr i'w chyfleusterau, ac yn 1961 agorwyd yr Adeilad Newydd (Redwood bellach) yn swyddogol gan Ei Uchelder Brenhinol Dug Caeredin. Yn wreiddiol, roedd hwn yn gartref ar gyfer Cemeg,

Bioleg a Mordwyo, ochr yn ochr â Fferylliaeth, ac roedd yn gyfle i gynyddu nifer y myfyrwyr a'r staff, a chyflawni datblygiadau pwysig o ran addysgu ac ymchwil. O'r myfyrwyr PhD cyntaf yn 1961 i ddarganfyddiadau arloesol degawdau diweddarach, mae ymdrechion gwyddonol yr Ysgol wedi parhau i ddarparu sylfaen ar gyfer addysgu israddedigion.

Themâu allweddol ar hyd hanes yr Ysgol fu cefnogaeth y gymuned fferyllol leol ac anwylded atgofion cyn-fyfyrwyr amdani. Mae'r ddwy fel ei gilydd yn golygu bod yr Ysgol wedi bod yn ganolog i fferylliaeth yng Nghymru ers dros gan mlynedd.

Daeth Adeilad Redwood yn gartref i'r Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol ar 2 Mehefin 1961. Credyd: Archifau Morgannwg



Ailddefnyddio masgiau wyneb: ai microdonnau yw'r ateb?

Mae ymchwilwyr o Brifysgol Caerdydd wedi bod yn profi ymarferoldeb defnyddio stêm a gwres sych wedi'u cynhyrchu gan ficrodonnau i ddiheintio PPE hanfodol sy'n cael ei ddefnyddio i daclo pandemig y coronafeirws.

Cydnabyddir bellach bod SARS-CoV-2, sef y COVID-19 sy'n gyfrifol am bandemig COVID-19, yn cael ei drosglwyddo'n bennaf drwy gyswllt uniongyrchol â defnyddiau heintus. Bydd cludwyr asymptomatig a symptomatig yn lledaenu'r feirws drwy ddefnyddiau wrth anadlu, siarad a pheswch.

Yn nyddiau cynnar pandemig COVID-19, roedd defnyddio cyfarpar amddiffynnol personol (PPE) anadl yn hanfodol er mwyn amddiffyn gweithwyr gofal iechyd rhag dod i gysylltiad â SARS-CoV-2. Mae'r eitemau hyn fel rheol yn rhai untro ac roedd galw digysail a pharhaus ledled y byd am gyfeintiau mawr o PPE. Adroddwyd yn eang bod mynediad at anadlyddion a masgiau wyneb llawfeddygol wedi dod yn gyfyngedig mewn llawer o gyfleusterau yn ystod y pandemig.

Yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru, daeth Prifysgol Caerdydd â thîm o'r ymchwilwyr gorau o'r Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol a'r Ysgol Beirianneg ynghyd i brofi dulliau posibl ar gyfer ailbroesu cyfarpar amddiffynnol personol (PPE).

Gan adrodd ar eu canfyddiadau yn y *Journal of Hospital Infection*, mae'r tîm wedi dangos y gall rhai mathau o anadlyddion gael eu diheintio'n effeithiol mewn dim ond 90 eiliad gan ddefnyddio microdon diwydiannol a sterileiddiwr poteli yn cynnwys dŵr.

"Mae methu â chael gafael ar ddigon o PPE yn golygu bod gweithwyr rheng flaen a chleifion yn wynebu perygl o ddal COVID-19. Er bod masgiau fel arfer yn cael eu hystyried yn eitemau untro, roeddem am ddarganfod a allent gael eu diheintio yn ddiogel a'u defnyddio eto," meddai cyd-awdur yr astudiaeth, yr Athro Jean-Yves Maillard, o'r Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol.

Mae'r ymchwilwyr yn credu y gellid defnyddio diheintio microdon mewn sefyllfaoedd brys er mwyn ymdrin â materion cyflenwi, a chynyddu'n sylweddol nifer yr anadlyddion sydd ar gael i staff rheng flaen.

Yn yr astudiaeth, cafodd anadlyddion eu rhoi trwy gylchoedd diheintio microdonnau, a dangoswyd eu bod yn gallu parhau i hidlo bacteria ac erosolau maint feirysol. Fodd bynnag, nododd yr ymchwilwyr bod rhoi masgiau llawfeddygol mewn microdonnau yn golygu eu bod yn colli'n llwyr eu gallu i hidlo erosolau.

Dywedodd Mike Pascoe, o'r Ysgol Fferylliaeth: "Gwyddom fod masgiau llawfeddygol yn llai effeithiol unwaith y maent yn gwlychu - roeddem yn amau y byddai diheintio mewn microdon yn arwain at golli eu gallu i hidlo erosolau. Cafodd hyn ei gadarnhau yn ein gwaith labordy."

Ymchwiliodd y tîm, sydd hefyd yn cynnwys academyddion o'r Ysgol Beirianneg, i ddefnyddio poptai gwres sych fel dull amgen. Nid yw sterileiddio gwres sych yn cynnwys unrhyw ddŵr ac felly mae'n gweithio'n dda gydag eitemau sy'n cael eu difrodi gan leithder.

Roedd bod mewn gwres sych 70°C am 90 munud yn effeithiol ar gyfer diheintio masgiau llawfeddygol ac anadlyddion. Ar ôl tri chylch gwres sych, cadwodd y ddau fath o fasg eu priodweddau hidlo erosol.

Mae'n hanfodol bod PPE yn cael ei ddiheintio'n effeithiol rhwng defnyddiau. Er y dangoswyd bod stêm a gwres sych a gynhyrchir gan ficrodon yn lladd COVID-19 yn effeithiol, roedd yr ymchwilwyr eisiau sicrhau bod y dull hwn hefyd yn effeithiol yn erbyn bacteria y deir ar eu traws mewn amgylcheddau gofal iechyd.



Yn yr astudiaeth, cafodd anadlyddion a masgiau llawfeddygol eu halogi'n bwrpasol â *Staphylococcus aureus*, rhywogaeth bacteriol sy'n gyffredin iawn mewn llwybrau anadlu dynol a all achosi heintiau meinwe meddal a sepsis. *Staphylococcus aureus* hefyd yw'r dangosydd biolegol cymeradwy ar gyfer profi effeithiolrwydd masg.


Lleihaodd y ddau dull nifer y bacteria ar fasgiau i lefel ddiogel yn effeithiol. O ganlyniad i'r astudiaeth, mae'r tîm wedi datblygu protocol i bennu pa fathau o PPE fyddai'n addas ar gyfer gwahanol driniaethau gyda deoryddion gwres sych neu ficrodonnau.

"Mae modelau masg ac anadlyddion yn amrywio'n sylweddol ac felly mae'n bwysig sicrhau nad yw'r dull diheintio'n cyfaddawdu eu swyddogaeth. O ystyried manteision ac anfanteision pob dull, rydym wedi cynnig llif gwaith ailbroesu y gallai ymarferwyr ei ddilyn mewn lleoliadau gofal iechyd. Gallai ailddefnyddio PPE presennol brynu amser hanfodol yn ystod argyfyngau ac achub bywydau," dywedodd Pascoe.

Mae'r tîm yn rhybuddio aelodau'r cyhoedd rhag defnyddio dull tebyg gartref. Dywedodd yr Athro Adrian Porch, o'r Ysgol Beirianneg: *"Fel arfer mae microdonnau cartref yn defnyddio llai o bŵer, tua 800W, ac yn defnyddio trofyrddau sy'n cylchdroi yn hytrach nag antenna sy'n cylchdroi. Byddai angen amseroedd amlygiad sylweddol hirach i sicrhau canlyniadau tebyg ac nid yw'n hysbys sut y byddai hyn yn effeithio ar weithrediad y masg. Gall masgiau sy'n cynnwys gwifrau tenau hyd yn oed fynd ar dân wrth eu rhoi mewn microdon."*



“Mae methu â chael gafael ar ddigon o PPE yn golygu bod gweithwyr rheng flaen a chleifion yn wynebu perygl o ddal COVID-19. Er bod masgiau fel arfer yn cael eu hystyried yn eitemau untro, roeddem am ddarganfod a allent gael eu diheintio yn ddiogel a'u defnyddio eto. ”





Holly Breeze-Jones



Cefnogi gofal cleifion ar y rheng flaen yn ystod y pandemig:

Myfyrdodau gan Fyfyrrwyr
Fferylliaeth ym Mhrifysgol Caerdydd

Cyhoeddwyd gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ar 14 Gorffennaf 2020
ac wedi'i ysgrifennu gan fyfyrwyr MPharm Caerdydd, Holly Breeze-Jones
a Rebecca Penney

Fel myfyrwyr fferylliaeth y drydedd flwyddyn, rydym wedi bod yn falch
o sefyll ochr yn ochr â'r proffesiwn fferylliaeth a chefnogi gofal cleifion
yn ystod cyfnod o her ddigynsail. Yma rydym yn rhannu ein profiad a'n
mewnwelediad wrth ddelio â phwysau pandemig COVID-19 ac er mwyn tynnu sylw
at bwysigrwydd rhoi addysg a hyfforddiant ar waith.

Nodweddion cadarnhaol gweithio trwy bandemig

Un peth sydd wir wedi bod yn amlwg
i ni yn ystod yr amseroedd caled
a digynsail hyn yw'r amynedd a'r
ddealltwriaeth a ddangoswyd gan
fwafrif helaeth y cyhoedd, y mae timau
fferylliaeth wedi'u gwerthfawrogi'n
fawr. Yn sgîl y cynnydd eithriadol o ran
nifer y sgriptiau, gall presgripsiynau
gymryd hyd at wythnos i'w dosbarthu
yn hytrach na'r rheol bawd arferol, sef
48 awr, a allai, yn ddealladwy, achosi
trallod i gleifion.

Mae clywed cleifion yn cymryd yr amser
i ddiolch i'r timau fferylliaeth am eu
gwaith caled wedi ein llenwi â balchder,
ac yn dangos bod staff fferylliaeth
yn ddi-os yn weithwyr allweddol.
Yn ogystal, mae'r gwaith tîm a
ddangoswyd rhwng aelodau staff wedi
bod yn rhyfeddol, sydd wedi gwneud
inni deimlo'n hynod falch o weithio
mewn fferyllfeydd cymunedol. Gan nad
oedd gan rai aelodau o staff unrhyw
ddewis ond gwarchod er mwyn eu
diogelwch eu hunain, neu ddiogelwch
eu teulu, mae lefelau staff wedi cael
eu gostwng ar yr amser prysuraf a
wynebwyd erioed.

Mae staff wedi bod yn gweithio oriau
a diwrnodau ychwanegol i sicrhau
bod gofal sy'n canolbwyntio ar y claf

yn parhau o'r safonau uchaf, ac er
mwyn bod yno i gefnogi ei gilydd mewn
amgylchedd mor ddirdynol a heriol.
Mae'r pethau cadarnhaol hyn wedi
caniatáu inni fyfrio ar ein profiadau ac
wedi dysgu gwersi bywyd amhrisiadwy
i ni y byddwn yn eu cario gyda ni wrth
inni ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o
fferyllwyr.

Yr heriau a wynebwr wrth weithio yn ystod pandemig

Fe wnaeth meddygfeydd leihau
cyswllt wyneb yn wyneb â'r cyhoedd a
chynyddodd ymwelwyr â fferyllfeydd
cymunedol yn fawr, gyda'r galw
am ymgynghoriadau ynghylch mân
anhwylderau a chynghor gofal iechyd
yn cynyddu'n ddramatig, a gofynnodd
llawer o bobl am werth 2 neu 3 mis o'u
meddyginiaeth. Roedd stoc yn mynd yn
isel yn rheolaidd gydag eitemau y ceir
galw mawr amdanynt allan o stoc yn
rheolaidd, ac roedd y llinellau ffôn yn
bysur tu hwnt ac roedd ciwiau di-ben-
draw. Roedd yn braf gweld sut roedd
cleifion o'r diwedd yn gweld gwerth
gallu cael gafael ar wasanaethau gofal
iechyd ar y stryd fawr, yn enwedig
gyda llawer yn defnyddio'r gwasanaeth
anhwylderau cyffredin gan ei bod yn
haws gweld fferyllfeydd na meddyg.



Rebecca Penney

Ond ar yr un pryd,
roedd yn straen. Roeddem yn rheoli
llwyth gwaith cynyddol, ac roedd
popeth yn cymryd mwy o amser nag
arfer oherwydd yr heriau a wynebwyd.
Ond roeddem hefyd yn benderfynol o
ddarparu'r gofal gorau posibl. Roedd
yn teimlo fel petaem yn gweithio dan
bwysau, sef pwysau gennym ni a chan
gleifion, ac yn rhedeg ar adrenalina.

Roedd yn ddealladwy bod ofn mawr
ar gleifion, a gwnaethom ein gorau i'w
cysuro. Ond roedd gennym hefyd ofn
dal COVID ein hunain a dod ag ef adref
i aelodau o'r teulu a oedd yn agored i
niwed neu a oedd hefyd yn weithwyr
rheng flaen, yn enwedig gan nad oedd
PPE ar gael i fferyllfeydd am gryn
amser. Fodd bynnag, mae gweithio
trwy'r anawsterau hyn wedi dangos i
ni ein bod yn gallu gwneud llawer mwy
nag yr oeddem yn ei feddwl ac wedi ein
gwneud yn fwy parod ar gyfer y dyfodol.

Rhoi addysgu ar waith - sut mae ein hastudiaethau yn y brifysgol wedi helpu.

Fel fferyllwyr y dyfodol, rydyn ni'n cael ein dysgu i gynnal y 9 safon ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol, a'r safon graidd yw gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn ystod y pandemig hwn rydym wedi gallu gweld hyn yn cael ei roi ar waith bob dydd gyda fferyllwyr yn cael eu rhoi mewn sefyllfaoedd newydd a heriol lle maen nhw bob amser yn ceisio datrys problemau gan ystyried budd pennaf y claf.

Rhan arwyddocaol a phwysig arall o'n hyfforddiant yw cyfathrebu. Nid ydym erioed wedi teimlo mor ddiolchgar am y dosbarthiadau meistr a'r gweithdai rydyn ni wedi'u cael ym Mhrifysgol Caerdydd a'n paratôdd cystal. Er enghraifft, gyda ni ein hunain a chleifion yn gwisgo masgiau wyneb ar gyfer PPE, bu'n rhaid i ni ddibynnu ar gyfathrebu di-eiriau ac iaith y corff i nodi ymatebion ac anghenion cleifion. Mae dim ond gwybod bod angen gofyn cwestiynau arweiniol er mwyn deall eu pryder yn well, dangos empathi ac ymateb o ddifrif i'w pryderon wedi golygu y gallwn helpu cleifion drwy wneud mwy na dim ond darparu meddyginiaeth iddynt.

Safbwyntiau newydd

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn wallgof, gyda llawer o heriau'n cael eu hwynebu, problemau wedi'u datrys, a gwersi wedi'u dysgu, ac rydyn ni, fel llawer o fyfyrwyr fferylliaeth eraill ledled y wlad sy'n helpu ar y rheng flaen, wedi dod yn fwy gwydn, cryf a pharod i addasu o ganlyniad i'n profiadau.

Gwybodaeth am yr awduron:

Holly Breeze-Jones

Mae Holly yn fyfyrwr Fferylliaeth yn ei thrydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd. Ar ôl gweithio yn ei Fferyllfa annibynnol leol ym Mhenclawdd yn Abertawe am y 4 blynedd diwethaf, roedd Holly yn ymrwymedig i ddychwelyd i weithio yn y fferyllfa hon pan gafodd gyfle i wneud hynny yng nghanol mis Mawrth.

Mae profiadau Holly yn gweithio drwy'r pandemig wedi ei rhoi dan bwysau ac wedi bod yn galed ar brydiau, ond mae wedi dysgu cymaint iddi ac wedi gwneud iddi sylweddoli bod gwaith tîm a chyfathrebu yn holl bwysig. Er bod Holly yn teimlo'n nerfus yn dychwelyd i'r gwaith mewn amgylchiadau mor ddigynsail, a bod ganddi arholiadau 3edd flwyddyn i feddlw amdanynt, roedd hi'n teimlo'n falch ei bod yn dychwelyd i'r gwaith i helpu tîm mor frwdfrydig a chefnogol a oedd angen yr help ychwanegol oherwydd cynnydd enfawr mewn galw.

Rebecca Penney

Fel myfyrwr fferyllfa yn ei thrydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Caerdydd, dechreuodd Rebecca weithio yn Fferyllfa Castell-nedd cyn gynted ag y newidiodd y trefniadau addysgu campws wyneb yn wyneb i drefniadau addysgu ar-lein, ychydig cyn i'r cyfyngiadau symud gael eu rhoi ar waith. Roedd Rebecca yn ymwybodol bod timau fferylliaeth yn wynebu cynnydd enfawr yn eu llwyth gwaith ac roedd hi'n teimlo gorfodaeth i helpu yn ystod y pandemig a chyfrannu at y rheng flaen, gan ddefnyddio ei phrofiad o weithio yn y fferyllfa o'r blaen a gwybodaeth yr oedd wedi'i meithrin o'i hastudiaethau.

Roedd Rebecca yn teimlo'n dda iawn ei bod yn gallu helpu fel hyn, gan ymrwymo i weithio 2-3 diwrnod yr wythnos i ddechrau ond gan baratoi hefyd ar gyfer asesiadau ar-lein. Nododd Rebecca fod heriau unigryw yn gysylltiedig â gweithio yn ystod y pandemig; roedd yn straen, gyda fferyllfeydd yn cael eu gwrthio i'r eithaf fel erioed o'r blaen. Ond roedd gweld pawb yn y fferyllfa yn cyd-dynnu yn dangos i ba raddau y gall gwaith tîm wneud gwahaniaeth ac mae'n dweud bod cael bod yn rhan o hynny wedi bod yn wych.



Caerdydd yn datblygu unig wasanaeth sgrinio COVID-19 mewn prifysgol yng Nghymru

Fel Sefydliadau Addysg Uwch eraill ledled y byd, cafodd Prifysgol Caerdydd ei hun yn wynebu storm COVID-19 ym mis Mawrth 2020. Ar gyfer feirws peryglus a oedd yn ffynnu ar gyswllt dynol agos (yn enwedig y tu mewn), bu'n rhaid i'r brifysgol ymateb mewn ffordd ystwyth i drawsnewid ei darpariaeth addysgol yn gyflym a buddsoddi mewn ystod o fesurau digynsail i ddatblygu campws a oedd yn ddiogel o ran COVID-19 i'w myfyrwyr a'i staff. .

Dan arweiniad yr Is-Ganghellor, sefydlodd y Brifysgol Dasglu COVID-19 yn gyflym o blith yr uwch-staff er mwyn goruchwyllo pob agwedd ar ailagor y Brifysgol yn ddiogel a'i busnes o ddydd i ddydd yn ystod argyfwng COVID-19. Yn y cyfamser, lluniwyd Grŵp Cyngori Gwyddonol y Brifysgol hefyd, dan gadeiryddiaeth yr Athro Westwell gan gynnwys yr Athro Jean-Yves Maillard ac ymchwilydd blaenllaw'r Ysgol Fferylliaeth, Dr Oliver Castell. Gweithiodd y grŵp cyngori gwyddonol ochr yn ochr â chydweithwyr yn Ysgolion y Biowyddorau a Meddygaeth i ddarparu cymorth a chynghor ymarferol i gydweithwyr lechyd Cyhoeddus Cymru (PHW) a Microbiolog yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Yng Ngwanwyn 2020, roedd labordai PHW ym Mharc y Mynydd Bychan yn prosesu'r mwyafrif o samplau swab cleifion o Gymru ar gyfer profion COVID-19, cyn sefydlu'r cyfleusterau goleudy cenedlaethol trwybwn uchel. Roedd cyflenwad y Brifysgol o adweithyddion allweddol a gofod labordy yn allweddol wrth barhau i weithredu cyfleusterau profi Cymru.

Yn ystod y feirws, daeth yn amlwg bod mynychder uchel poblogaethau heintus asymptomatig, yn enwedig ymhlith oedolion ifanc, yn un o

agweddau mwyaf peryglus COVID-19. Mae cyfleusterau profi cenedlaethol yn dal i ganolbwyntio'n helaeth ar boblogaethau symptomatig. Fodd bynnag, roedd grwpiau sy'n byw mewn lleoliadau dwysedd uchel fel neuaddau preswyl yn peri risg real iawn o ledaenu i boblogaethau oedolion hŷn, gyda chanlyniadau dinistriol o bosibl. Erbyn dechrau Haf 2020, dechreuodd Grŵp Cyngori Gwyddonol y Brifysgol ddatblygu syniadau i sgrinio myfyrwyr a staff asymptomatig, gan adeiladu ar gyfleusterau ac arbenigedd blaenllaw Ysgol Biowyddorau'r brifysgol.

Ac felly, ym mis Gorffennaf 2020, gwnaeth Prifysgol Caerdydd

benderfyniad arloesol i fuddsoddi ei hadnoddau ei hun er mwyn cyflwyno ei chyfleuster sgrinio asymptomatig gan ddefnyddio profion salifa ar fyrder ar gyfer myfyrwyr a staff. Prifysgol Caerdydd yw'r unig brifysgol yng Nghymru o hyd i sgrinio myfyrwyr gan ddefnyddio'r dull PCR ar gyfer haint COVID-19, ac mae'n un o nifer bach o brifysgolion blaenllaw grŵp Russell sydd wedi gwneud hynny.

Mae salifa yn darparu cyfrwng cyfleus, cadarn a syml ar gyfer casglu sampl, a chafodd adeiladau'r brifysgol sydd â lle a dulliau awyru priodol eu hailbwrpasu ar gyfer casglu samplau yn ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar y dull



Ymchwilwyr Caerdydd yn cefnogi cleifion a gwella gallu'r GIG yn ystod COVID-19

Mae tîm o ymchwilwyr o'r Ysgol wedi bod yn cefnogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP) trwy gydweithredu yn ystod COVID-19.

Mae'r grŵp cydweithredol ymchwil rhwng yr Ysgol a BIP Caerdydd a'r Fro wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn. Fodd bynnag, datblygodd gydberthnasau gwaith agosach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda'r grŵp yn cefnogi'r BIP i leddfu pwysau Covid y GIG.

Gweithiodd staff yr Ysgol gan gynnwys Dr Allan Cosslett, Dr Chris Thomas a Dr Helen King gyda thimau rheoli

ansawdd y BIP i gynnal astudiaethau sefydlogrwydd critigol lle nad oedd gan y GIG bellach y gallu i gyflawni'r gwaith pwysig hwn.

Roedd yr astudiaethau a gynhaliwyd gan y tîm yn canolbwyntio ar hwyluso gofal allanol fel cemotherapi a gwasanaethau clinigol cardiaidd a maethiad drwy'r gwythiennau gartref. Mae dangos sefydlogrwydd meddyginiaethau mewn dyfeisiau danfon allanol yn golygu y gellir ymestyn oes silff, sy'n golygu y gellir rhyddhau cleifion mewnol a'u hanfon adref yn ddiogel.

Dywedodd Dr Sarah Hiom, Fferylllydd Arbenigol Cymru gyfan yn BIP Caerdydd a'r Fro, "Mae'r gefnogaeth a gawsom gan y grŵp wedi bod yn amhrisiadwy. Yn ogystal â lleihau'r risg o gael haint yn yr ysbyty i gleifion bregus, mae hefyd wedi cynyddu'r gwelyau sydd ar gael. Yn bwysig, cafwyd effaith gadarnhaol ar lesiant cleifion a boddhad cyffredinol drwy alluogi cleifion i dderbyn triniaeth yng nghysur a diogelwch eu cartrefi eu hunain".



RT-PCR hynod sensitif, ac mae ganddo allu robotig digonol i brosesu >2,000 o samplau y dydd.


Dywedodd yr Athro Andrew Westwell o'r Ysgol Fferylliaeth "Ers i'r cyfleuster sgrinio agor ar ddechrau blwyddyn academiaidd 2020/21, mae'r Brifysgol wedi sgrinio >25,000 o fyfyrwyr a staff. Yn bwysig, mae'r gwasanaeth wedi darganfod cannoedd o achosion positif asymptomatig sydd wedi'u cadarnhau gan brofion y GIG ac sydd wedi cael eu hynysu wedi hynny. Mae hyn wedi atal y feirws rhag lledaenu ymhellach ymhlith y gymuned gan gynnwys myfyrwyr lleoliadau clinigol mewn amgylcheddau risg uchel".

Mae cronfa ddata'r gwasanaeth sgrinio a'r samplau sy'n cael eu storio ym mïofanc y Brifysgol yn darparu adnodd gwerthfawr ac unigryw ar gyfer astudiaethau ymchwil parhaus mewn meysydd fel imiwnedd hirdymor rhag COVID-19.

Gellir gweld dangosfyrddau data yn: www.cardiff.ac.uk/coronavirus/covid-19-case-numbers

Gellir gweld stori newyddion y Brifysgol, gan gynnwys taith fideo o amgylch y cyfleusterau profi yma: www.cardiff.ac.uk/news





Staff Dan y Chwyddwydr:

Simon Taylor MRPharmS

Yng ngwanwyn 2020, wrth i'r DU ddechrau teimlo effaith gynyddol COVID-19, dechreuodd Boots Ltd weithio gyda'r GIG a Llywodraeth y DU i sefydlu gorsafoedd gyrru drwodd i bobl â symptomau COVID-19. Dyma Simon Taylor, Ymarferydd Athrawon yn yr Ysgol a Hyfforddwr Academi Gofal Iechyd ar gyfer Boots yn sôn am ei waith.



Beth yw eich cefndir?

Graddiais o Brifysgol Caerdydd yn 2004 ond dechreuais weithio gyda Boots yn 2001 fel myfyriwr ar leoliad haf. Cymhwysais fel fferylllydd yn 2005 a gweithiais ledled Cymru a Lloegr i Boots fel fferylllydd mewn-siop. Yn 2011 enillais y wobr "Gwelliannau mewn Rheoli Meddyginiaethau" yng Ngwobrau Fferylliaeth Cymru. Flwyddyn yn ddiweddarach, roeddwn yn rhan o dîm Boots (Stryd y Frenhines, cangen Caerdydd) a enillodd "Fferyllfa'r Flwyddyn" yng Ngwobrau Cemegwyr a Dosbarthwyr Cyffuriau'r DU.

Mae fy ymarfer wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddarparu gwasanaethau'r GIG a gwasanaethau preifat ar gyfer Boots gan gynnwys gwasanaethau brechu, gwasanaethau teithio a chymorth i Gartrefi Gofal gan gynnwys hyfforddiant rhoi meddyginiaethau. Yn 2018 deuthum yn Hyfforddwr yr Academi Gofal Iechyd er mwyn helpu i ddatblygu cydweithwyr fferyllol gan gynnwys fferyllwyr cyn-gofrestru a fferyllwyr sylfaen, ac yn Ymarferydd Athrawon ar gyfer yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dywedwch wrthym am eich rôl ddiweddaraf yn Boots

Mae Boots wedi bod wrth galon gofal iechyd y DU ers 171 o flynyddoedd ac mae ganddo hanes hir o gefnogi ei gymunedau ar adegau o angen. Cefais y fraint o fod yn rhan o'r tîm yn Boots a sefydlodd ein proses brofi COVID-19 ac a greodd gannoedd o brofwyr hyfforddedig ledled y DU.

Dechreuodd gwasanaeth profi COVID-19 fel menter i gael gweithwyr y GIG yn ôl i'r gwaith os oeddent yn cael canlyniad prawf negatiff, neu i gadarnhau'r angen i ynysu os cafwyd canlyniad prawf positif. Yn fuan, fodd bynnag, ehangodd y gweithrediad i gynnwys gweithwyr gofal iechyd eraill, gweithwyr allweddol ac yn y pen draw unrhyw un a oedd o'r farn y gallai fod yn wynebu risg o ddal COVID-19. Cynhaliwyd miliynau o brofion a llwyddodd miloedd o weithwyr y GIG i aildechrau gweithio ar y rheng flaen i gadw gwasanaethau'r GIG i fynd.

Rhan allweddol o'r gweithrediad hwn oedd y bobl a gyflwynodd eu hunain fel profwyr, yr oedd rhai ohonynt yn wirfoddolwyr. Sicrhodd y bobl hyn eu bod yn gweithio mewn modd clinigol a diogel i gyflawni profion cywir, gan helpu pobl i gael eu canlyniadau'n gyflym.

Yn un o'r safleoedd gyrru drwodd y bûm yn helpu i'w sefydlu ym Mryste, daeth myfyriwr MPharm ail flwyddyn o Gaerdydd, Kierra Martin, i ymuno â'r tîm o brofwyr, gan dreulio ei hamser y tu allan mewn tywydd amrywiol i gyflawni profion. Roedd y safle penodol hwn yn profi mwy na mil o bobl symptomatig bob dydd ac rwy'n wirioneddol falch o'r ymdrech a wnaed gan bob un profwr.

Roedd Kierra hefyd yn rhan o'r gwasanaeth profi mewn-siop yng Nghaerdydd hefyd. Rwy'n gwybod ei bod hi wir wedi gwerthfawrogi'r profiad a'r sgiliau a feithriniodd, sydd wedi llwyddo nid yn unig i'w helpu yn ei hastudiaethau, ond a fydd hefyd yn ei rhoi mewn sefyllfa dda yn y dyfodol.

Sut mae'r gwasanaeth profi wedi datblygu dros yr ychydig fisoedd diwethaf?

Yn fwy diweddar, mae'r DU wedi dechrau cyflwyno gweithdrefnau profi torfol. Mae Boots yn parhau i gefnogi'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol ledled y DU i ddarparu cefnogaeth ac atebion. Rwy'n parhau i gefnogi rhaglenni hyfforddi i greu mwy o brofwyr ar gyfer y mentrau hyn. Mae hyn yn cynnwys profi yn fferyllfeydd Boots ac ymdrechion profi torfol diweddar yng Nghymru a Lloegr. Mae darparu profion yn dal i fod yn hynod bwysig wrth helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith, i hwyluso teithio ac i ddeall lledaeniad y feirws.

Beth ydych chi'n ei hoffi am eich rôl fel Hyfforddwr ac Ymarferydd Athrawon?

Rwyf wrth fy modd yn gweithio mewn tîm sydd ag adnodd mor enfawr o bobl, syniadau a brwdfrydedd. Mae eleni wedi bod yn her go iawn ond mae llawer o bobl a sefydliadau yn dangos yr ystwythder i newid y ffordd y maent yn gweithio, gan sicrhau y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau a'r gofal sydd eu hangen ar bobl.

Mae'n wych bod yn ôl yn yr Ysgol Fferylliaeth yn dysgu wyneb yn wyneb ac o bell gyda dysgu cyfunol. Mae'n amser anodd i bawb, ond hyd yn hyn rwyf wedi rhyngweithio'n wych â myfyrwyr, gan helpu i ddod ag agweddau ymarferol fferylliaeth gymunedol yn fyw a dangos gwerth y proffesiwn ar y rheng flaen.

Dathlu'r arloeswyr a'r unigolion newydd sy'n chwarae rhan amlwg wrth ddarganfod cyffuriau

Cynhaliodd yr Ysgol Symposiwm Cyntaf Chris McGuigan ar 26 Medi 2019, i ddatlu gwaith rhagorol ym maes darganfod cyffuriau ledled y byd.

Crëwyd y symposiwm er cof am yr Athro Chris McGuigan, cyn aelod o staff uchel ei barch yn yr Ysgol Fferylliaeth a gwyddondd blaenllaw ym maes darganfod cyffuriau.

Roedd yr Athro Chris McGuigan yn ddylunydd a datblygwr cyffuriau arbenigol a dawnus a oedd wrth wraidd ymchwil wyddonol hanfodol am fwy na 30 mlynedd. Roedd yn un o brif wyddonwyr y DU ym maes darganfod cyffuriau gwrth-ganser. Roedd ei arbenigedd ymchwil hefyd yn ymestyn i ddarganfod a datblygu cyffuriau newydd ar gyfer HIV, hepatitis B ac C, a chlefyd y system nerfol ganolog. Roedd yn gyfrifol am ddyfeisio pedwar cyffur arbrofol newydd i'w defnyddio mewn treialon clinigol dynol, cyhoeddodd dros 200 o bapurau gwyddonol a chyflwynodd dros 100 o geisiadau am baten.

Mae Wobrau Darganfod Cyffuriau dwyflynyddol Chris McGuigan yn dathlu yr hyn a etifeddwyd gan yr Athro Chris McGuigan o ran rhagoriaeth ac arloesedd mewn gwyddor darganfod cyffuriau. Gwneir enwebiadau gan academyddion yn y Coleg Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd. Mae tair gwobr ar gael i ymchwilwyr sydd wedi rhagori yn eu maes.

Enillwyr Wobrau Darganfod Cyffuriau Cyntaf Chris McGuigan 2019

Cyflwynodd Symposiwm cyntaf Chris McGuigan dair gwobr i enillwyr sydd wedi rhagori ym maes darganfod cyffuriau.

Rhodddwyd Gwobr Traethawd PhD Eithriadol McGuigan i Dr Gilda Giancotti am ei gwaith ar atalyddion c-FLIP. Llwyddodd Di Giancotti i gwblhau ei PhD mewn Cemeg Feddyginiaethol ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2018 o dan oruchwyliaeth yr Athro Andrea Brancale, gan weithio ar ddatblygu cyfryngau gwrth-ganser newydd ar gyfer trin canser y fron. Ar hyn o bryd mae Gilda yn gweithio fel cemegydd meddyginiaethol ar gyfer y Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd, i ddatblygu cyffuriau newydd i drin cyflyrau iechyd meddwl.

Wrth siarad am ei gwobr, dywedodd Dr. Giancotti, 'Braith o'r mwyaf yw

Gwobr Traethawd Ymchwil PhD Eithriadol McGuigan

Gwobr o £1,000 i gydnabod y traethawd ymchwil gorau mewn ymchwil sy'n gysylltiedig â darparu cyffuriau gan unigolyn sydd wedi llwyddo i ennill gradd ddoethuriaeth o Brifysgol Caerdydd.

Gwobr McGuigan Rising Star

Rhoddir gwobr o £4,000 i ymchwilydd gyrfa gynnar (o fewn 5 mlynedd i PhD/MD) sydd wedi cael effaith sylweddol, wreiddiol a gydnabyddir yn rhyngwladol yn y gwyddorau darganfod cyffuriau.

derbyn Gwobr Traethawd PhD Eithriadol McGuigan. Mae'r wobwr hon yn cynrychioli un o gyflawniadau mwyaf fy ngyrfa gynnar, ac mae'n ysgogiad pellach i fwrw ymlaen â fy ngwaith yn y maes ymchwil.

Enillwyd Gwobr McGuigan Rising Star gan Dr Joana Rocha-Pereira o KU Leuven. Cafodd Dr Rocha-Pereira y wobwr am ei gwaith ar greu systemau model newydd ar gyfer darganfod meddyginiaethau sy'n targedu norofeirws. Dywedodd Dr Rocha-Pereira 'Darganfod cyffuriau oedd beth oeddwn i eisiau ei wneud, dyma pam y dewisais i astudio fferylliaeth, ac mae bod yma yn y Symposiwm er cof am ddyn sydd wedi rhoi cymaint i ddarganfod cyffuriau yn arbennig iawn.'

Dyfarnwyd Gwobr McGuigan am Waith Nodedig mewn Darganfod Cyffuriau i'r Athro Ralf Bartenschlager o Brifysgol Heidelberg, am ei waith ar ddod o hyd i iachâd ar gyfer hepatitis C. Mae gwaith yr Athro Bartenschlager dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf wedi cynnwys dulliau delweddu arloesol a systemau meithrin celloedd gyda'r nod o feithrin dealltwriaeth fanwl o'r rhyngweithio cymhleth rhwng y gell letyol a'i phathogenau. Mae'r astudiaethau biolegol celloedd manwl hyn

Gwobr McGuigan am Waith Nodedig mewn Darganfod Cyffuriau

Gwobr o £10,000 i gydnabod uwch ymchwilydd yn y byd academiaidd neu ddiwydiant sydd ag enw da yn rhyngwladol a hanes profedig o arwain wrth gychwyn neu ddatblygu egwyddorion gwyddonol newydd; neu wrth ddefnyddio cyffuriau a ddarganfuwyd i ddatblygu meddyginiaethau i bobl.

wedi arwain at ddatblygu cyffuriau a all wella hepatitis C mewn 94-99% o gleifion yn dilyn cwrs deuddeg wythnos, gyda sgîl-ffeithiau ar lefel isel.

Dywedodd yr Athro Bartenschlager "Mae'r wobwr yn anrhydedd mawr ac yn cydnabod y gwaith a wnaeth fy nhim a minnau, ac rwy'n hynod ddiolchgar. Rwy'n ystyried gwaith Chris McGuigan yn enghraifft wych o sut mae ymchwil mewn cemeg feddyginiaethol a firoleg wedi cyfrannu at therapi gwrthfeirysol. Mae wedi bod yn fraint o'r mwyaf bod yn rhan o'r datblygiadau hyn a osododd y sylfaen ar gyfer therapi iachaol mewn perthynas â hepatitis C cronig."

Caiff Symposiwm nesaf Chris McGuigan ei gynnal yn hydref 2021. I gofrestru eich diddordeb mewn mynychu'r symposiwm, cysylltwch â mgcguiganaward@caerdydd.ac.uk

I gael mwy o wybodaeth am Wobrau Darganfod Cyffuriau Chris McGuigan ewch i

www.cardiff.ac.uk/chris-mcguigan-drug-discovery-awards

Cefnogwch ni

Mae Wobrau Darganfod Cyffuriau a Symposiwm Chris McGuigan yn bosibl diolch i rodd hael gan Dr Geoff Henson, ffrind i'r Athro McGuigan.

I ddarganfod sut y gallwch chi gefnogi ein gwaith, ewch i www.cardiff.ac.uk/donate

Gall Prifysgol Caerdydd achub, newid a chyfoethogi bywydau trwy eich cefnogaeth. Mae ein hymchwil arloesol yn bosibl a rhoddir y sylfeini i fyfyrwyr dawnus lwyddo diolch i roddion.

Rhoi Gwaith Ymchwil yr Ysgol dan y Chwyddwydr – gwella triniaethau i drechu cancer

Mae'r Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol yn gysylltiedig ag ymchwil o'r radd flaenaf sy'n ceisio gwella iechyd pobl. Mae rhagoriaeth ein hymchwil ym maes gwyddoniaeth fferyllol ac iechyd yn cael ei chydabod yn rhyngwladol. Yma rydym yn archwilio peth o'r ymchwil arloesol o'r Ysgol sydd wrthi'n cael ei datblygu ar hyn o bryd i wella triniaethau cancer.

Progyffuriau cancer ProTides yn rhan o dreialon clinigol a phrosesau datblygu

Mae cyfres o brogyffuriau ProTide gwrth-ganser, a ddyluniwyd yn yr Ysgol, bellach yn rhan o dreialon clinigol i wella perfformiad a goddefedd nifer o therapiau cancer.

Arloeswyd technoleg cyflwyno ProTide yn Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol Prifysgol Caerdydd gan y diweddar Athro Chris McGuigan. Mae technoleg ProTide yn caniatáu cyflwyno cyffuriau sy'n seiliedig ar niwcleosid (cyfryngau gwrthfeirysol a gwrth-ganser) yn effeithlon ac yn effeithiol i gelloedd targed. Profwyd bod y dechnoleg hon yn gwella gweithgaredd therapiwtig cyffuriau niwcleosid gwrthfeirysol yn ddramatig. Nawr, mae cyfres o brogyffuriau ProTide gwrth-ganser a ddarganfuwyd gan yr un tîm yn yr Ysgol - dan arweiniad Dr Magdalena Slusarczyk gyda Dr Michaela Serpi - wrthi'n cael eu profi fel rhan o dreialon clinigol mewn cydweithrediad â NuCana plc.

Mae analogau niwcleosid yn ddosbarth mawr o gyfryngau cemotherapiwtig gwrth-ganser a ddefnyddir i drin amrywiaeth o diwmorau. Maent yn atal tyfiant tiwmor trwy atal y broses o ddyblygu DNA, sy'n arwain at ladd y celloedd. Fodd bynnag, mae effeithiolrwydd cyffuriau sy'n seiliedig ar niwcleosid yn aml yn cael ei leihau, oherwydd ymwrthedd celloedd cancer cynhenid neu gaffaeledig, gan arwain at ganlyniadau goroesi gwael i gleifion. Mae'r ymwrthedd hwn yn deillio o amrywiol ffactorau gan gynnwys y ffaith nad yw celloedd y tiwmor yn derbyn y cyffuriau yn effeithiol (diffyg mewn proteinau cludo niwcleosid), actifadu gwael (rhaid i gyffuriau gael eu ffosfforyleiddio i niwcleotidau i fod yn effeithiol) a diraddiad metabolaidd cyflym y cyffur. Yn ogystal, mae cyffuriau cemotherapi yn targedu celloedd iach, yn ogystal â chelloedd cancer, gan arwain at sgîl-effeithiau difrifol i gleifion; mae technoleg ProTide yr Ysgol yn mynd i'r afael â'r cyfyngiadau hyn ac yn eu goresgyn.

Mae ProTides cancer sy'n destun gwaith datblygu clinigol yn cynnwys Acelarin® sy'n cael ei werthuso mewn astudiaeth Cam III fyd-eang ar gyfer trin cleifion â chaner datblygedig y llwybr bustlog. Ym mis Mehefin 2019, dyfarnodd Gweinyddiaeth Bwyd a Chyffuriau yr Unol Daleithiau ddynodiad cyffuriau amddifad ar gyfer Acelarin® ar gyfer trin cancer y llwybr bustlog.

Mae ProTides cancer eraill sy'n destun gwaith datblygu clinigol yn cynnwys NUC-3373, trawsnewidiad ProTide o flocswridin (FUDR), sy'n cael ei werthuso mewn astudiaeth Cam I mewn cleifion â thiwmorau solid datblygedig gwahanol ac mewn astudiaeth Cam 1b mewn cyfuniad â chyfryngau eraill ar gyfer trin cleifion gyda chaner colorectol datblygedig. Mae NUC-7738, addasiad proTide o'r adenosin niwcleosid 3'deoxy, hefyd yn destun treial clinigol Cam I ar gyfer malaenau tiwmor solet a haematolegol.



Cyfansoddion newydd yn cael eu datblygu i drechu cancer

Mae ymchwilwyr yn yr Ysgol, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Birmingham, wedi datblygu moleciwlau newydd a all gychwyn ymateb imiwnedd yn erbyn celloedd cancer.

Mae imiwnotherapi yn un o lawer o strategaethau o'r radd flaenaf sy'n cael eu harchwilio a'u defnyddio ar hyn o bryd i drin cancer. Mae'n cynnwys creu amgylchedd lle mae'r system imiwnedd yn ymosod ar gelloedd cancer a thiwmorau nad oedd modd eu canfod yn flaenorol. Mae rhai dulliau imiwnotherapi eisoes yn cael eu defnyddio'n glinigol, a chydabuwyd y dechnoleg yn 2018 pan ddyfarnwyd Gwobr Nobel am Ffisioleg neu Feddygaeth i ddau o'i harloeswyr, James P Allison a Tasuko Honjo.

Gan anelu at ddatblygu imiwnotherapiwteg newydd, mae tîm o ymchwilwyr dan arweiniad Dr. Youcef Mehellou o'r Ysgol a'r Athro Ben Willcox

o Brifysgol Birmingham, wedi datblygu cyfres o gyfansoddion sy'n targedu ac yn actifadu un math o gell imiwnedd yn ddetholus, y credir ei bod yn bwysig wrth drechu cancer. Yna, dangoswyd bod yr is-fath hwn o gell imiwnedd yn effeithiol wrth ddinistrio celloedd cancer y bledren. Er i'r tîm adrodd yn flaenorol am gyfres o gyfansoddion sy'n cyflawni'r un swyddogaeth, mae'r gyfres newydd yn llawer mwy grymus na'r genhedlaeth gyntaf ac mae ganddynt briodweddau cemegol gwell sy'n debygol o'u gwneud yn feddyginiaethau gwell.

Dywedodd Dr Youcef Mehellou, a gyd-arweiniodd yr astudiaeth yn yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol:

"Mae gan y gyfres newydd hon o gyfansoddion botensial mawr i gael eu datblygu'n therapiwteg wrth-ganser mawr ei hangen. Gan weithio gyda'n cydweithwyr a'n partneriaid arbenigol, rydym bellach yn canolbwyntio ar nodi'r canserau lle bydd y cyfansoddion hyn yn cael yr effeithiau therapiwtig gorau posibl ac yn symud y cyfansoddion ymlaen i astudiaethau mewn pobl cyn gynted â phosibl."

Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 - Blwyddyn bwysig i'n hymchwil

Y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) yw'r system a ddefnyddir i asesu ansawdd ymchwil yn sefydliadau addysg uwch y DU. Fel rhan o gyflwyniad REF21 Prifysgol Caerdydd yn gynharach eleni, cafodd tair Astudiaeth Achos Effaith o'r Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol eu cynnwys fel enghreifftiau o sut mae ein hymchwil yn cael effaith gadarnhaol, y tu hwnt i'r byd academiaidd, o dan uned asesu o'r enw 'Proffesiynau Iechyd Perthynol, Deintyddiaeth, Nyrsio a Fferylliaeth.' Archwiliodd yr astudiaethau achos hyn sut mae ein hymchwil i ddarganfod cyffuriau a darparu cyffuriau wedi arwain at dwf cwmnïau i dri o'n partneriaid masnachol.


Archwiliodd un o'r astudiaethau achos hyn sut mae datblygiad ein progyffuriau ProTide gwrth-ganser, a grybwyllwyd uchod, wedi galluogi NuCana plc i dyfu a darparu ystod o dreialon clinigol newydd. Rhoddodd ail astudiaeth achos fanylion am sut mae ein hymchwil hirsefydlog i effeithiolrwydd mewnannadlwyr powdr sych wedi arwain at dwf masnachol i Qualicaps®, arweinydd ym maes mewnannadlu. Yn olaf, gwnaethom ddangos sut mae ymchwil i effeithiolrwydd a defnydd cadachau gwrthficrobaidd, a ddefnyddir i leihau lledaeniad bacteria mewn ysbytai, wedi arwain at Safon Ryngwladol newydd ar gyfer profi a defnyddio cadachau gwrthfacterol, ynghyd â thwf sylweddol i'r gweithgynhyrchwr cadachau o'r DU GAMA Healthcare.

Bydd canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 hefyd yn adlewyrchu arwyddocâd a gwreiddioldeb cyhoeddiadau ymchwil a rhagoriaeth ein hamgylchedd i gefnogi darganfyddiadau ymchwil effeithiol o ansawdd uchel. Mwy yn y man!



Myfyrwyr fferylliaeth Caerdydd yn helpu i achub miloedd o fywydau yn Affrica

Mae elusen iechyd mamau sy'n gweithio i fynd i'r afael â'r drasiedi a'r anghyfiawnder i fenywod sy'n marw bob blwyddyn yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth yn Affrica Is-Sahara yn elwa ar ymdrechion codi arian clodwiw cymdeithas myfyrwyr fferylliaeth Caerdydd.



Nod Cymdeithas Myfyrwyr Fferyllol Cymru (WPSA) yw cyfoethogi bywydau ei myfyrwyr wrth iddynt astudio Fferylliaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r WPSA yn cynnal digwyddiadau cymdeithasol, digwyddiadau chwaraeon a dawns elusennol flynyddol. Mae'r gymdeithas yn ffordd wych i aelodau integreiddio â myfyrwyr eraill a chael help llaw yn ystod eu gradd MPharm.

Bob blwyddyn, mae'r WPSA yn codi arian ar gyfer ei helusen enwebedig. Ymhlith y buddiolwyr blaenorol mae'r elusen gofal lliniarol i blant, Tŷ Hafan.

Yn 2019/20 elusen enwebedig y flwyddyn WPSA oedd Life for African Mothers, elusen iechyd mamau gofrestredig. Mae dros 303,000 o fenywod yn marw bob blwyddyn o gymhlethdodau wrth roi genedigaeth, yn bennaf yn Affrica Is-Sahara. Gellir osgoi 99% o'r holl farwolaethau hyn gyda'r gofal a'r adnoddau meddygol cywir. Mae'r elusen yn gweithredu'n uniongyrchol trwy ddarparu meddyginiaethau a hyfforddiant bydwreigiaeth.

Drwy ei hamrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol a chwaraeon i fyfyrwyr, a thrwy werthu nwyddau brand canmlwyddiant, cododd WPSA £3702.63. Diolch i rodd WPSA, llwyddwyd i anfon 120,000 o dabledi Misoprostol i Sierra Leone a allai achub miloedd o fywydau.

Dywedodd Dafydd Rizzo, Cadeirydd WPSA "Dyma hanfod ein cymdeithas, nid dim ond digwyddiadau cymdeithasol gwyh i fyfyrwyr Fferylliaeth, ond codi arian wrth wneud hynny at achosion gwyh sy'n newid ac yn achub bywydau. Dylai pawb fod yn falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni"

Ochr yn ochr ag WPSA, hoffai'r Ysgol longyfarch Angela Gorman, Prif Weithredwr Life for African Mothers, am dderbyn MBE yn 2020 am ei gwaith elusennol.

Yn dilyn llwyddiant ei hymgyrch Iechyd Meddwl yng Ngwanwyn 2020, bydd WPSA yn codi arian i Mind Cymru yn ystod blwyddyn academiaidd 2020-21.

Gair gan WPSA

Buddugoliaeth WPSA yng Ngornest y Prifysgolion

Nid yw llwyddiant WPSA dros y flwyddyn ddiwethaf wedi'i hatal rhag parhau i godi arian. Cafodd WPSA fuddugoliaeth fawr yng Ngornest y Prifysgolion 2019 gan ennill mewn tair camp yn erbyn ei phrif gystadleuwyr, myfyrwyr yr Ysgol Optometreg a Gwyddorau Golwg. Ond wynebodd WPSA gystadleuaeth galed ym mis Chwefror 2020 mewn gêm bêl-droed rhwng Myfyrwyr a Staff yr Ysgol, a chwaraewyd mewn glaw trwm yn Nhalybont, gan arwain at gêm gyfartal â sgôr o 5-5.

Dawns Canmlwyddiant WPSA


Yn dilyn y gêm bêl-droed rhwng y staff a'r myfyrwyr, cynhaliodd WPSA ddawns i ddathlu canmlwyddiant yr Ysgol yng Ngwesty'r Hilton, Caerdydd. Daeth staff a myfyrwyr i fwynhau'r ddawns a chafwyd ymddangosiad arbennig gan fand staff yr Ysgol, Bad Medicine. Roedd y band yn cynnwys Wyn Davies (Athro/Ymarferydd) sy'n adnabyddus am fod yn rhan o Only Men Aloud yn canu, Dr Chris Thomas (Darlithydd) ar y drymiau, Dean Routledge (Gweinyddwr Ymchwil ac Ymgysylltu), Sebastiano Rizzo (ymchwil PhD) ar y bas a chyn ymchwilydd ôl-ddoethurol PhD yr Ysgol, Dr Chris Jeans, ar nifer o offerynnau gyda'r lleisiau ategol yn cael eu darparu gan Jo Blankley (Swyddog Marchnata'r Ysgol). Cafwyd perfformiadau arbennig hefyd gan Ddirprwy Bennaeth yr Ysgol ac MC y ddawns, yr Athro James Birchall.

Fel rhan o flwyddyn gofiadwy WPSA, rhaid cofio hefyd eu cyflawniadau syfrdanol yn Hanner Marathon Caerdydd lle y gwnaethant redeg ochr yn ochr â staff a myfyrwyr eraill Prifysgol Caerdydd.

Dywedodd yr Athro Mark Gumbleton, Pennaeth yr Ysgol

"Ar ran yr Ysgol, rydym yn estyn llongyfarchiadau calonnog i'r WPSA a'r holl fyfyrwyr am eu cyflawniadau ac yn diolch i'r Cadeirydd sy'n gadael, Dafydd Rizzo. Rydym hefyd yn dymuno pob llwyddiant i bwyllgor newydd WPSA am y flwyddyn i ddod, a chroeso cynnes i'r Cadeirydd newydd, a chyn Ysgrifennydd WPSA, Hannah Blowers".





Ffarwel hoffus ag aelod unigryw o'r proffesiwn fferyllol

Mae'r Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol yn cofio cydweithiwr uchel ei barch, a chreawdwr a buddiolwr Casgliad Turner, Terry Turner OBE (yn y llun ar y chwith).

Bu farw Terry Turner OBE, cyn Uwch-ddarlithydd a sylfaenydd yr Uned Ymchwil Rhwymynnau Llawfeddygol yn hen Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol Cymru ddydd Sul 13 Hydref 2019 yn 90 oed.

Cofrestrodd Terry fel fferylllydd ym 1955 a, thrwy gydol ei yrfa hir ac amrywiol o fewn y proffesiwn fferylliaeth, roedd bob amser yn un o'i brif gymeriadau. Dechreuodd ei yrfa academaidd yn Ysgol Fferylliaeth Cymru ym 1957 fel Darlithydd mewn Microbioleg a symudodd ymlaen i fod yn Uwch-ddarlithydd mewn Ffarmacognosi ac yn Bennaeth yr adran Ffarmacognosi. Enillodd ei MPharm yn 1960 am waith ar ffarmacognosi rhai rhywogaethau o Strychnos.

Daeth Terry yn arbenigwr mewn ymchwil rhwymynnau llawfeddygol ac ef oedd Cyfarwyddwr sefydlu Uned Ymchwil Rhwymynnau Llawfeddygol yr Ysgol. Yn 1969 cychwynnodd y rhaglen rheoli a gwerthuso ansawdd gyntaf ar gyfer rheoli clwyfau yn y DU. Yn 1970, fe'i penodwyd yn Gadeirydd Pwyllgor Perfformiad Rhwymynnau Llawfeddygol Cymdeithas Fferyllol Prydain Fawr (PSGB), ac Is-bwyllgor Codex Fferyllol Prydain ar Rwymynnau Llawfeddygol. Gweithredodd am nifer o flynyddoedd fel fferylllydd ymgynghorol i'r Swyddfa Gymreig a Phwyllgor Rhwymynnau Cymru Gyfan.

Roedd yn gyd-olygydd y Journal of Wound Management ac yn aelod o grŵp cynghori Ffarmacopoeia Ewrop. Yn 1980 ymunodd â'r Pwyllgor Deunyddiau Deintyddol a Llawfeddygol. Roedd hefyd yn aelod o Bwyllgorau sefydlu Cymdeithas Rheoli Clwyfau Ewrop a'r Gymdeithas Iachau Clwyfau Milfeddygol. Bu'n ymwneud yn weithredol â Gweithrediaeth Cymru y PSGB ers ei sefydlu yn 1976 tan 2000. Ef oedd cadeirydd y Weithrediaeth rhwng 1980 a 1981.

Roedd hefyd yn aelod sefydlol o Gymdeithas Hanes Fferylliaeth Prydain a sefydlwyd yn 1967. Yn 2017, cyflwynwyd Medal Leslie Matthews i Terry i gydnabod ei waith gwreiddiol ac ysgolheigaidd ar hanes fferylliaeth Prydain. Roedd hefyd yn gyn-lywydd Cymdeithas Hanes Meddygaeth Cymru.

Dynodwyd Terry yn Gymrawd y PSGB yn 1976 am 'ragoriaeth yn y proffesiwn fferylliaeth', a dyfarnwyd OBE iddo yn 1989 am Wasanaethau i fferylliaeth yng Nghymru. Yn 1991 dyfarnwyd Medal Arian Siarter Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr iddo.

Roedd yn gasglwr arteffactau fferyllol hanesyddol a materia medica brwd, ac yn gynnar yn y 1980au, curadodd arddangosfa - sef Casgliad Turner - yn Adeilad Redwood, cartref yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol. Sefydlodd hefyd arddangosfa o hanes

fferylliaeth yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn 2000. Gweithredodd fel curadur gwadd a chynghorydd ar arteffactau fferyllol i Amgueddfa Genedlaethol Cymru, gan gymynroddi llawer o'i gasgliad diddorol i'r Amgueddfa.

I gydweithwyr a myfyrwyr fel ei gilydd, roedd pawb yn gwybod ei fod yn poeni am eu huchelgeisiau a'u datblygiad. Roedd yn llawn doethineb a ddaeth i'r amlwg wrth iddo adrodd llawer o hanesion o'i orffennol.

Roedd Terry yn aelod unigryw o'r proffesiwn fferyllol y bydd colled fawr ar ei ôl. Byddai llawer o'i gyn-fyfyrwyr yn cytuno na fyddent wedi llwyddo cystal yn eu gyrfa heb ei gefnogaeth a'i anogaeth gychwynnol.

Mae etifeddiaeth Terry Turner yn parhau gydag interniaeth haf ar y campws a gariwyd drosodd i 2021 i fyfyrwr israddedig MPharm weithio ar brosiect cyffrous ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Bydd y prosiect yn cychwyn adolygiad cyfoes o 469 o sbesimenau Materia Medica yng nghasgliad yr Amgueddfa gyda'r nod o'u gwneud yn fwy hygyrch ac yn berthnasol i ymarfer meddyginiaeth a fferylliaeth fodern.

Hoffai'r Ysgol ddiolch i Sarah Cockbill, Mair Davies a Bryony Harmer am gael defnyddio eu Teyrnged i Terry Turner a gyhoeddwyd yn The Pharmaceutical Journal, 11 Tachwedd 2019

Llwyddiant myfyrwyr yng Nghynhadledd Cymdeithas Myfyrwyr Fferyllol Prydain

Cynhadledd Flynyddol BPSA yw prif ddigwyddiad Cymdeithas Myfyrwyr Fferyllol Prydain. Roedd disgwyl i'r 78fed Gynhadledd Flynyddol gael ei chynnal ar 8 Ebrill 2020 ym Mhrifysgol Aston yn Birmingham ond oherwydd y pandemig dathlwyd ar-lein ar 17 Hydref.

Mae cynhadledd BPSA yn archwilio'r materion sydd fwyaf perthnasol i fferylliaeth. Mae'n rhoi cipolwg ar feysydd allweddol drwy weithdai, trafodaethau panel, prif siaradwyr a dadleuon. Nod Cynhadledd BPSA yw llywio gwaith dysgu myfyrwyr, gan ar yr un pryd ddarparu cyfleoedd i drafod materion fferylliaeth perthnasol.

Cynhaliwyd cystadlaethau BPSA yn yr Ysgol yn semester yr hydref 2019. Gan gystadlu yn erbyn ysgolion fferyllol eraill mewn cystadlaethau rhanbarthol ac yn ddiweddarach yn y rowndiau terfynol yng nghynhadledd BPSA, mae'r Ysgol yn hynod falch a hoffai estyn llongyfarchiadau twymgalon i'r myfyrwyr canlynol o Gaerdydd am eu llwyddiant a'u cyflawniadau.

Enillydd Cystadleuaeth Busnes



a Menter Alliance Healthcare ac Alphega Pharmacy - **Maddyson Chan**, MPharm 4edd flwyddyn

Anogodd y gystadleuaeth hon fyfyrwyr i ddysgu mwy am agweddau busnes gweithredu fferyllfa ochr yn ochr â gwella eu hyder a'u sgiliau cyflwyno. Rhoddwyd 15 munud i'r myfyrwr ymchwilio ac yna baratoi ar gyfer cyflwyniad busnes.

"Rwyf mor ddiolchgar am y cyfle i gymryd rhan yn y gystadleuaeth. Fe wnaeth clywed adborth gan gyfoedion a oedd wedi cystadlu o'r blaen fy ysbrydoli i roi cynnig arni, a byddwn yn annog pawb arall i roi cynnig arni hefyd! Fe wnaeth y gystadleuaeth ei hun wir agor fy llygaid i fyd busnes fferylliaeth ac roedd cyrraedd cynhadledd BPSA yn caniatáu imi gwrrd â myfyrwyr fferylliaeth eraill. Cefais lawer o hwyl yn cystadlu ar bob lefel o'r gystadleuaeth ac fe synnais fy hun o ran sut yr es ati i ymateb i bob her. Rwy'n falch o'r syniadau a gyflwynais - heb sôn am y gwobrau anhygoel a enillais!"

Enillydd Cystadleuaeth Glinigol



Boots - **Caitriona O'Driscoll**, MPharm 4edd flwyddyn

Nod y gystadleuaeth hon oedd gwella sgiliau clinigol ac ymgynghori myfyrwyr a hefyd gwella a hybu hyder ochr yn ochr â sgiliau meddal.

"Mae'n hollol anhygoel fy mod wedi ennill y gystadleuaeth sgiliau clinigol ac wedi cadw'r teitl o fewn Prifysgol Caerdydd am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae'r gystadleuaeth wedi bod yn gyfle gwyb i mi fagu hyder a chwrdd â myfyrwyr fferyllol eraill o wahanol brifysgolion."

Dyweddodd yr Athro James Birchall, Dirprwy Bennaeth yr Ysgol

"Fel Ysgol rydym yn gadarn o blaid cynnig y cyfleoedd dysgu a rhwydweithio proffesiynol hyn i'n myfyrwyr rhagorol. Mae'n wych clywed bod ein myfyrwyr yn achub ar y cyfleoedd hyn ac yn rhagori yn y cystadlaethau. Rydym yn falch iawn ohonynt."



Enillydd Cystadleuaeth Ymgyrch Iechyd Cyhoeddus Lloyds - **Lucy Whitehouse**, MPharm 4edd flwyddyn

Yn ystod y gystadleuaeth hon, roedd yn ofynnol i fyfyrwyr ddylunio ymgyrch iechyd cyhoeddus ar y pwnc 'Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl: Sut i ymateb i berson mewn argyfwng', drwy gyflwyniad fideo. Seiliodd Lucy ei fideo ar ymgyrch Iechyd Meddwl BPSA a gynhaliwyd yn Adeilad Redwood ddechrau mis Mawrth 2020.

"Roedd cymryd rhan yng nghystadleuaeth iechyd cyhoeddus Lloyds yn brofiad gwyb. Gwnaethom ymchwilio i bwysigrwydd ymgyrchoedd iechyd meddwl a wnaeth ein helpu i ehangu ein gwybodaeth am y pwnc yr oeddem wedi bod yn ei astudio fel rhan o'r MPharm. Mae'r gystadleuaeth hon wedi rhoi atgof parhaus i ni o un o uchafbwyntiau ein 3edd flwyddyn yn astudio"

Nid dyna ddiwedd y llwyddiant! Etholwyd tri myfyrwr o Gaerdydd i Weithrediaeth BPSA 2020/21 yn dilyn etholiadau Hydref 2020:

Is-lywydd - **Bella Shah**, 4edd flwyddyn

Swyddog Datblygu Addysg - **Ahlam Nagi**, Cyn cofrestru, O Gaerdydd gynt

Cydlynnydd Ardal y Gorllewin - **Yusuf Elmi**, 3edd flwyddyn

Os hoffai unrhyw fyfyrwr wybod sut i chwarae mwy o ran yn BPSA, cysylltwch â **Lucy Whitehouse, Cynrychiolydd WPSA BPSA**: WhitehouseL4@caerdydd.ac.uk

Paratoi'r ffordd i arweinwyr y presennol a'r dyfodol ym maes Fferylliaeth

Mae Gwobrau Fferylliaeth blynyddol Cymru yn cydnabod y mentrau mwyaf arloesol ac yn dathlu cyflawniadau'r diwydiant a'r proffesiwn sy'n gweithio ar y rheng flaen i feithrin a darparu gofal rhagorol i gleifion.

Denodd seremoni wobrwyo fawreddog 2019, a gynhaliwyd er anrhydedd i'n harwyr gofal iechyd a sêr y dyfodol, dros 300 o westeion i westy'r Vale Resort – yn amrywio o arweinwyr i ddysgwyr; newydd-ddyfodiaid i roddwyr gofal sefydlog.

Yn gyfrifol am gynnal y noson, cyhoeddodd y Newyddiadurwr a'r Cyflwynydd, Sian Lloyd, ynghyd â noddwyr a beirniaid uchel eu parch, enillwyr y 10 categori, a oedd yn amrywio o Dim Fferylliaeth Ysbytai y Flwyddyn, a Hyfforddi Staff Cownter Meddyginiaethau, i Arloesi mewn Ansawdd ac Effeithlonrwydd trwy Technoleg ym maes Fferylliaeth Gymunedol. Cyflwynwyd y Wobr Cydnabyddiaeth Arbennig i Suzanne Scott-Thomas am ei chyfraniad at fferylliaeth yng Nghymru; yn enwedig fel Cyfarwyddwr Clinigol a Phennaeth Rheoli Meddyginiaethau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf, a Chadeirydd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (Cymru).

Mewn blwyddyn o ansicrwydd - ac mewn amodau annisgwyl a phwysau digynsail - mae fferyllwyr yng Nghymru wedi arddangos eu hymrwymiad proffesiynol yn fwy nag erioed o'r blaen.

Mewn ymateb i ganllawiau COVID-19 trosglwyddodd seremoni Gwobrau Fferylliaeth Cymru 2020 ar-lein ar 9 Rhagfyr lle cyflwynodd cynrychiolwyr gofal iechyd allweddol a noddwyr gwobrau fideos a chyhoeddiadau am yr enillwyr.

Gan gadw i fyny â darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd Cymru sy'n datblygu'n barhaus, cyhoeddwyd dros 10 gwobr gyda chategorïau'n amrywio o Dim Fferylliaeth Ysbytai y Flwyddyn, i Reoli Diabetes mewn Ymarfer Meddygon Teulu a Fferylliaeth Gymunedol, ac Arweinyddiaeth Myfyrwyr Fferylliaeth.

Roedd derbynnydd Gwobr Cyflawniad Oes fawreddog 2020 yn un o gyn-raddedigion fferylliaeth glinigol yr Ysgol, Paul Harris, i gydnabod ei gyfraniad eithriadol at ofal cleifion, gan fynd y tu hwnt i'w ddyletswyddau yn ei rolau fel Cyfarwyddwr Fferylliaeth Gymunedol Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Fferyllol Cymru.

Mae arweinyddiaeth yn ifanc yn arwydd sicr o lais cryf yn y dyfodol i'r proffesiwn fferylliaeth, p'un a fydd myfyrwyr MPharm yn mynd ymlaen i weithio yn y gymuned, ysbyty, practis meddygon

teulu, ymchwil neu yn yr arena academaidd, cânt eu hannog gan yr Ysgol a chan gyrff proffesiynol i fwrw ymlaen â syniadau arloesol newydd.

Roedd staff yn yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol wrth eu bodd yn enwebu dau fyfyrwr israddedig MPharm eithriadol o'r bedwaredd flwyddyn sy'n dangos rhinweddau arweinyddiaeth o'r fath ar gyfer categori Gwobr Arweinyddiaeth Myfyrwyr Fferylliaeth newydd.

Hoffai'r Ysgol longyfarch Dafydd Rizzo, cyn-Gadeirydd WPSA, am ennill Gwobr Arweinyddiaeth Myfyrwyr Fferylliaeth 2020 ac unigolyn arall, Rafal Latif, Cadeirydd y Panel Staff Myfyrwyr, a gafodd hefyd ei enwebu ar gyfer y categori hwn. Rydym hefyd yn llongyfarch yr holl enillwyr, enwebeion ac arwyr gofal iechyd eraill.

Rhestr lawn o enillwyr Gwobrau Fferylliaeth Cymru 2020 www.welshpharmacyawards.info/



Clod uchel gan fyfyrwyr i'r MPharm yng Nghaerdydd

Cyflawnodd y cwrs MPharm yng Nghaerdydd sgôr boddhad cyffredinol o 93% yn yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol diweddaraf.

Mae'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol yn arolwg annibynnol sy'n gofyn i fyfyrwyr raddio ansawdd eu profiad Addysg Uwch. Mae'n cael ei gydnabod yn eang fel mesur allweddol o foddhad myfyrwyr ac mae'n offeryn defnyddiol i ddarparu fyfyrwyr wrth wneud dewisiadau astudio.

Diolch i'n holl fyfyrwyr a bleidleisiodd ac i staff gwyh ein Hysgol sy'n parhau i sicrhau ein bod yn darparu profiad dysgu sy'n ein galluogi i gynnal ein statws fel un o'r Ysgolion Fferylliaeth gorau yn y DU.

93%



Gardd Goffa'r Athro Chris McGuigan yn cael ei henwi'n un o fannau gwyrdd gorau'r wlad

Mae Gardd Goffa'r Athro Chris McGuigan yn Adeilad Redwood wedi ennill Gwobr Gymunedol fawreddog y Faner Werdd am y bedwaredd flwyddyn yn olynol i gydnabod cyfraniad ei gwirfoddolwyr ymroddedig, ei safonau amgylcheddol uchel a'i hymrwymiad i ddarparu man gwyrdd o ansawdd gwyb.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi datgelu enillwyr Gwobr Baner Werdd 2020 – y nod rhyngwladol ar gyfer parc neu fan gwyrdd o ansawdd. Roedd 127 o fannau gwyrdd a reolir gan y gymuned ledled y wlad yn cyrraedd y safonau uchel sydd eu hangen i dderbyn Gwobr Gymunedol y Faner

Werdd. Mae hyn yn golygu bod traean o safleoedd Baner Werdd gymunedol y DU yng Nghymru o hyd.

Darperir rhaglen Gwobr y Faner Werdd yng Nghymru gan yr elusen amgylcheddol, Cadwch Gymru'n Daclus, gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Gwnaeth arbenigwyr mannau gwyrdd annibynnol roi o'u hamser yn wirfoddol yn gynnar yn yr hydref i farnu safleoedd ymgeisywyr yn erbyn wyth maen prawf, gan gynnwys bioamrywiaeth, glendid, rheolaeth amgylcheddol, a chynnwys y gymuned.

Dywedodd Lucy Prisk, Cydlynnydd y Faner Werdd yn Cadwch Gymru'n

Daclus, "Mae'r pandemig wedi dangos pa mor bwysig yw parciau a mannau gwyrdd o ansawdd uchel i'n cymunedau. I lawer ohonom, maent wedi bod yn hafan ar garreg ein drws, gan fod o fudd i'n hiechyd a'n lles. Mae llwyddiant gardd goffa Prifysgol Caerdydd er anrhydedd i'r arloeswr darganfod cyffuriau, yr Athro Chris McGuigan, wrth ennill Gwobr Gymunedol y Faner Werdd yn dyst i'r gwirfoddolwyr o blith staff a myfyrwyr yr Ysgol sydd wedi cynnal safonau rhagorol o dan yr amgylchiadau mwyaf heriol. Hoffwn longyfarch a diolch iddyn nhw i gyd am eu hymrwymiad rhagorol."

Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr

Mae Gwobrau Cyfoethogi Bywydau Myfyrwyr 2020 a drefnwyd gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn dathlu myfyrwyr a staff sydd wedi cyfoethogi bywydau myfyrwyr dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Enwebwyd 16 o aelodau o staff yr Ysgol gan fyfyrwyr a staff y Brifysgol am eu gwaith ysbrydoledig a chefnogol.

Hoffai'r Ysgol longyfarch Dr Julia Gee a Dr Emma Kidd a gafodd eu cydnabod fel enillwyr Gwobr Tiwtor Personol y Flwyddyn a Gwobr Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr ESLA 2020.

Hefyd, llongyfarchiadau enfawr i bob un o'r 16 o enwebeion o blith staff yr Ysgol ac i'r rhai ar y rhestr fer.

Yr Athro Tony Campbell yn derbyn CBE yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd 2021

Dyfarwydd anrhydedd hyfryd a hollol briodol i aelod o staff ein Hysgol, yr Athro Tony Campbell, pan ddyfarnwyd CBE (Cadlywydd Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig) iddo yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd eleni.

Dyfarwydd y wobwr bwysig i Tony am ei wasanaethau i Fiocemeg. Gwasanaethau lle y mae Tony nid yn unig wedi gwneud cyfraniadau sylweddol ar lefel ysgolheigaidd ond hefyd wrth droi ei wyddoniaeth yn 'offer' diagnosteg feddygol sy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd ac yn eang gan glinigwyr.

Mae Tony yn awdurdod rhyngwladol mewn signalau celloedd - sydd wrth wraidd sut mae hormonau, niwro-drosglwyddydion a chyffuriau yn effeithio ar y corff dynol - ac mae hefyd yn awdurdod byd-eang ar fioamoleuedd. Mae un o'i ddarganfyddiadau, gan ddefnyddio

cemamoleuedd, bellach yn cael ei ddefnyddio mewn cannoedd o filiynau o brofion clinigol y flwyddyn ledled y byd, a chafodd ei enwi fel un o'r 100 o ddyfeisiadau gorau gan brifysgolion y DU yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. Am y 15 mlynedd diwethaf, canolbwyntiodd ei ymchwil ar lactos ac anoddefiad bwyd, sydd wedi arwain at ragdybiaeth newydd am yr hyn sy'n achosi syndrom coluddyn llidus.

Mae Tony hefyd yn frwd ynghylch cyfathrebu datblygiadau gwyddonol er mwyn gwella dealltwriaeth y cyhoedd ac ysbrydoli disgyblion a myfyrwyr yr Ysgol drwy wyddoniaeth flaengar. Yn 1993 sefydlodd Tony Ganolfan Darwin wedi'i lleoli yng Ngorllewin Cymru sy'n annog chwilfrydedd ymhlith pobl ifanc a chymunedau mewn pynciau STEM. Enillodd wobwr Inspire Wales am Wyddoniaeth a Thechnoleg yn 2011. Yn 2016 sefydlodd Tony a'i wraig, Stephanie, The Young Darwinian, sef cyfnodolyn rhyngwladol i fyfyrwyr ysgol gyhoeddi eu prosiectau a'u profiadau gwyddonol.

Fel derbynnydd y CBE yn Rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd 2021 rydym yn falch dros Tony a'i deulu, ac yn falch ei fod yn gysylltiedig â'n Hysgol.

MSc Ymchwil Glinigol

Datblygu sgiliau ymchwil rhagorol i ddatblygu gyrfa mewn ymchwil glinigol. Mae'r cwrs hwn yn darparu gwell dealltwriaeth o brosesau a rheoleiddio treialon clinigol, gan gynnwys mewnwelediad i'r ystod amrywiol o feysydd therapiwtig a'u triniaethau mewn perthynas â chofrestru cyffuriau a diogelwch cyffuriau.

Nodweddion Nodedig

- Gwybodaeth a dealltwriaeth fanwl o arferion gorau sy'n berthnasol i gynnal treialon clinigol.
- Profiad o hyfforddiant manwl mewn maes datblygu cyffuriau, treialon clinigol, safonau rheoleiddio ac ennill cymeradwyaeth ar gyfer mynediad i'r farchnad fyd-eang.
- Derbyn y datblygiadau diweddaraf mewn Ymchwil Glinigol gan arbenigwyr yn y diwydiant.
- Cefnogaeth gan diwtor personol profiadol ac adborth gan dîm academiaidd profiadol.
- Cyfle i wneud prosiect ymchwil gyda chefnogaeth gan Ysgol ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol.
- Hyblygrwydd i deilwra'ch astudiaeth tuag at ddiddordebau eich cyflogwr gyda modiwlau dewisol a phwnc prosiect ymchwil.

Ynglŷn â'r cwrs

- Rhaglen fodiwlaid, ran-amser a dysgu o bell sy'n caniatáu hyblygrwydd i astudio wrth weithio.
- Cyfres o sesiynau tiwtorial ar-lein ac ymarferion ffurfiannol, fforwm trafod cymar-i-gymar gyda mynediad i lyfrgell ar-lein helaeth y Brifysgol.


- Yn cynnwys 3 modiwl astudio (60 credyd) ym Mlwyddyn 1, 3 modiwl astudio (60 credyd) ym Mlwyddyn 2 gan symud ymlaen i ddyfarnu MSc mewn Ymchwil Glinigol gyda 60 credyd ar ôl cwblhau prosiect yn seiliedig ar ymchwil yn llwyddiannus ym Mlwyddyn 3

Gofynion mynediad

- Yn addas ar gyfer graddedigion gofal iechyd, gwyddorau bywyd neu bwnc cysylltiedig â gofal iechyd.
- Gall ymgeiswyr sydd â phrofiad mewn ymchwil glinigol a threialon fod yn gymwys yn amodol ar gymeradwyaeth.
- Rhaid i ymgeiswyr nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf gael sgôr IELTS gyffredinol o 6.5.

Gyrfaoedd

Wedi'i gynllunio i ddatblygu neu wella'ch gyrfa ym maes Ymchwil Glinigol, mae graddedigion blaenorol yn mwynhau gyrfaoedd llwyddiannus yn y diwydiant fferyllol, gwasanaeth iechyd, ymchwil gontract, sefydliadau, awdurdodau rheoleiddio, rheoli data sefydliadau neu mewn ysgrifennu meddygol. Mae eraill wedi mynd ar drywydd ymhellach ymchwil trwy PhD.



**O diddordeb? Am ragor o
fanylion cysylltwch â'r:**
Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol

+44 (0)29 2087 4080
pgtphrmyadmissions@caerdydd.ac.uk
www.caerdydd.ac.uk/pharmacy

MSc in Clinical Research

Develop outstanding research skills to advance a career in clinical research. This course provides enhanced understanding of clinical trial processes and regulation, including an insight into the diverse range of therapeutic areas and their treatments in relation to drug registration and drug safety.

Distinctive Features

- Advanced knowledge and understanding of best practice applied to running clinical trials.
- Experience in-depth training in the field of drug development, clinical trials, regulatory standards and gaining approval for global market access.
- Receive the latest developments in Clinical Research from a range of industry experts.
- Access to personalised support and feedback from an experienced academic team.
- An opportunity to undertake a research project with support from an internationally recognised research School.
- The flexibility to tailor your study towards your employer's interests with optional modules and research project topic.

Course delivery

- A modular, part-time and distance learning programme that allows the flexibility to study whilst working.
- A series of online tutorials and formative exercises, peer-to-peer discussion forum with access to University's extensive online library.


- Comprises of 3 study modules (60 credits) in Year 1, 3 study modules (60 credits) in Year 2 progressing to award of an MSc in Clinical Research with 60 credits on successful completion of a research-based project in Year 3.

Entry requirements

- Suitable for graduates from healthcare, life sciences or a healthcare related subject.
- Applicants with experience in clinical research and trials may be eligible subject to approval.
- Applicants whose first language is not English must obtain a IELTS score of 6.5 overall.

Careers

Designed to advance or enhance your career in Clinical Research, previous graduates enjoy successful careers in the pharmaceutical industry, health service, contract research organisations, regulatory authorities, data management organisations or in medical writing. Others have pursued further research through a PhD.



Interested? Get in touch

School of Pharmacy and Pharmaceutical Sciences



+44 (0)29 2987 4080



pgtphrmyadmissions@cardiff.ac.uk



www.cardiff.ac.uk/pharmacy



Cysylltu â ni:

Am y newyddion diweddaraf gan
yr Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau
Fferyllol dilynwch ni ar gyfryngau
cymdeithasol

 **CardiffSchoolofPharmacy**

 **@PharmacyCU**

 **@cardiffpharmacy**